Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft 2020
## Briff Ymchwil

Hydref 2020



www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/ymchwil**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6317**
E-bost: **Elfyn.Henderson@Senedd.Cymru**
Twitter: **@SeneddYmchwil**
Blog: **SeneddYmchwil.blog**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2020**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft 2020
## Briff Ymchwil

Hydref 2020

**Awduron:**
Francesca Howorth ac Elfyn Henderson

# Cynnwys

**1. Cefndir .......................................................................................... 2**

1.1. Diben y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ........................................ 2

1.2. Datblygu'r Fframwaith ........................................................................ 3

1.3. Cyfnod trafod y Senedd ...................................................................... 3

**2. Craffu ar Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft 2019 .. 5**

2.1. Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig 5

2.2. Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ............................................ 6

**3. Cyflwyno Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft 2020 7**

3.1. Strwythur Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft 2020 .......... 8

3.2. Pennod 3 - Gosod a chyflawni ein huchelgeisiau ............................ 9

3.3. Pennod 4 – Strategaeth Ofodol (Polisïau 1 – 18) .............................. 10

3.4. Pennod 5 - Y Rhanbarthau (Polisïau 19 - 36) .................................... 23

3.5. Arfarniad o Gynaliadwyedd Integredig .............................................. 32

3.6. Asesiad o Reoliadau Cynefinoedd ...................................................... 33

# Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod y **drafft o'i Fframwaith Datblygu Cenedlaethol cyntaf ar gyfer Cymru** gerbron y Senedd.

Yr enw ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol fydd 'Cymru'r Dyfodol – y cynllun cenedlaethol 2040'.

Mae cynhyrchu'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn ofyniad statudol. Bydd yn amlinellu strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer mynd i'r afael â'i blaenoriaethau cenedlaethol drwy'r system gynllunio. Disgwylir i'r Fframwaith terfynol gael ei gyhoeddi ym mis Chwefror 2021.

Dechreuodd y broses o ddatblygu'r Fframwaith yn 2016 ac mae'n cynnwys nifer o gamau allweddol. Mae'r briff hwn yn crynhoi'r canlynol:

- Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft 2020, a dogfennau cysylltiedig, a osodwyd gerbron y Senedd ym mis Medi 2020;
- sut mae'r cynigion hyn yn wahanol i'r rhai y cawsant eu cynnwys yn fersiwn blaenorol y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft, y cynhaliwyd ymgynghoriad yn eu cylch yn 2019; a
- gwaith craffu gan pwyllgor y Senedd ar Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft 2019.

Cyhoeddodd Gwasanaeth Ymchwil y Senedd **bapur briffio ar wahân** yn 2019 i gefnogi'r gwaith craffu ar Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft 2019. Mae'r papur briffio hwnnw'n darparu cefndir hanesyddol pellach ar ddatblygiad y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, gan gynnwys crynodeb o ddrafft 2019 a'i ragflaenydd, yr 'opsiwn a ffefrir ar gyfer y fframwaith' yn 2018.

# 1. Cefndir

Cyflwynodd **Deddf Cynllunio (Cymru) 2015** ddwy lefel newydd o gynllun datblygu, a fydd uwchlaw'r Cynlluniau Datblygu Lleol presennol:

- fframwaith sy'n cwmpasu Cymru gyfan; a hefyd
- **Cynlluniau Datblygu Strategol** sy'n cwmpasu rhanbarthau penodol.

Bydd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn nodi polisïau Llywodraeth Cymru ar ddatblygu a defnyddio tir mewn cyd-destun gofodol. Bydd yn nodi fframwaith defnydd tir dros gyfnod o 20 mlynedd ac yn cael ei adolygu o leiaf bob pum mlynedd.

Yn wahanol i'w ragflaenydd, **Cynllun Gofodol Cymru**, bydd gan y Fframwaith statws cynllun datblygu. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid gwneud penderfyniadau cynllunio yn unol â'r Fframwaith a bod yn rhaid i bob Cynllun Datblygu Strategol a Cynllun Datblygu Lleol gydymffurfio ag ef.

Mae Cynlluniau Datblygu Strategol yn gynlluniau rhanbarthol a fydd yn bodoli rhwng y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a Chynlluniau Datblygu Lleol, a byddant yn mynd i'r afael â materion sy'n torri ar draws nifer o ardaloedd awdurdodau cynllunio lleol (ond nad ydynt o arwyddocâd cenedlaethol). Ar adeg ysgrifennu'r papur briffio hwn, does dim dyletswydd statudol i gynhyrchu Cynlluniau Datblygu Strategol, ond mae Llywodraeth Cymru wedi dweud y bydd **Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)** yn mandadu'r broses o baratoi Cynlluniau Datblygu Strategol.

Fodd bynnag, mae dogfen Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft 2020 – a drafodir yn ddiweddarach yn y papur briffio hwn – yn cynnwys polisi sy'n 'ei gwneud yn ofynnol cyflwyno Cynlluniau Datblygu Strategol'.

## 1.1. Diben y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol

Ar ddechrau'r broses, nododd Llywodraeth Cymru ddiben y Fframwaith fel a ganlyn:

- nodi lle mae angen twf a seilwaith o bwysigrwydd cenedlaethol a sut gall y system gynllunio gyflawni hyn;
- rhoi cyfarwyddyd i Gynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol;
- cefnogi penderfyniadau ynghylch ceisiadau o dan y drefn **Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol;**

- ategu strategaethau economaidd, trafnidiaeth, amgylcheddol, tai, ynni a diwylliannol cenedlaethol a sicrhau y gellir cyflawni'r rhain drwy'r system gynllunio; a
- bodoli ochr yn ochr â **Pholisi Cynllunio Cymru,** sy'n disgrifio polisïau cynllunio cenedlaethol Llywodraeth Cymru ac a fydd yn parhau i bennu'r cyd-destun ar gyfer cynllunio defnydd tir.

Cyhoeddwyd fersiwn ddiweddaraf Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 10) ym mis Rhagfyr 2018, ar ôl cael ei ddiwygio i ystyried *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*.

## 1.2. Datblygu'r Fframwaith

Dechreuodd y gwaith i ddatblygu'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn 2016. Mae Llywodraeth Cymru wedi **cyhoeddi llinell amser** sy'n dangos y gwahanol gamau sy'n gysylltiedig â datblygu'r Fframwaith. Mae hyn yn cynnwys:

- datblygu **Datganiad Cyfranogiad y Cyhoedd** (Ionawr - Medi 2016);
- casglu tystiolaeth ac ymgymryd â gwaith ymgysylltu i ddatblygu gweledigaeth, amcanion a dewisiadau ar gyfer y Fframwaith (Hydref 2016 - Mawrth 2018);
- cyhoeddi ac ymgynghori ar **faterion, opsiynau a'r opsiwn a ffefrir o ran y Fframwaith**, gyda chymorth asesiadau ac adroddiadau amgylcheddol (Ebrill 2018 – Gorffennaf 2018);
- trafod ymatebion i'r ymgynghoriad ar y dewis a ffafrir a pharatoi'r Fframwaith drafft (Gorffennaf 2018 - Awst 2019);
- ymgynghori ar **Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft 2019**, ystyried ymatebion a pharatoi'r adroddiad ymgynghori (Awst 2019 – Mehefin 2020);
- y Senedd yn ystyried y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft a'r newidiadau arfaethedig (Medi – Tachwedd 2020); a
- chyhoeddi'r Fframwaith terfynol (Chwefror 2021).

Yn flaenorol, roedd Llywodraeth Cymru wedi bwriadu gosod y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft gerbron y Senedd ym mis Ebrill 2020 a chyhoeddi'r fersiwn derfynol ym mis Medi, ond newidiwyd yr amserlen hon o ganlyniad i bandemig y Coronafeirws.

## 1.3. Cyfnod trafod y Senedd

Mae'r Ddeddf Gynllunio yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft gerbron y Senedd am 'gyfnod trafod'

o 60 diwrnod. Mae'n rhaid i'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft gynnwys adroddiad yn crynhoi'r materion a godwyd yn ystod y broses ymgynghori a sut mae Gweinidogion Cymru wedi eu dwyn i ystyriaeth.

Gosododd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, Julie James, (y Gweinidog) y **Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft** a'r **adroddiad ymgynghori** gerbron y Senedd ar 21 Medi 2020, ac wrth wneud hynny cychwynnodd y cyfnod trafod o 60 diwrnod.

Ni all y Senedd 'gymeradwyo' y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Yn hytrach, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ystyried penderfyniadau neu argymhellion a wneir gan y Senedd – neu unrhyw un o'i bwyllgorau – wrth benderfynu a ddylid diwygio'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft ai peidio. Mae'n rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi datganiad ochr yn ochr â'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol terfynol yn nodi sut mae wedi ystyried penderfyniadau neu argymhellion y Senedd.

# 2. Craffu ar Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft 2019

Bu Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig y Senedd a Phwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau yn cynnal gwaith craffu ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft ar ddiwedd 2019.

Yn ogystal â chyhoeddi **papur briffio'r gwasanaeth ymchwil ynghylch Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft 2019**, comisiynodd Gwasanaeth Ymchwil y Senedd Ludi Simpson – Athro Astudiaethau Poblogaeth ym Mhrifysgol Manceinion – i **adolygu'r amcangyfrifon o ran tai yn Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft 2019**. Cynhyrchwyd ei bapur o dan y **Gynllun Cymrodoriaeth Gwasanaeth Ymchwil y Senedd.**

## 2.1. Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

Cynhaliodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig sesiynau tystiolaeth cyhoeddus ar **24 Hydref, 6 Tachwedd** a **14 Tachwedd.** Lluniodd Adroddiad **y Pwyllgor** – a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr – 50 o gasgliadau ar gyfer Llywodraeth Cymru. Mae ymateb sylweddol Llywodraeth Cymru i gasgliadau'r Pwyllgor wedi'i gynnwys yn yr **adroddiad ymgynghori** a osodwyd gan y Gweinidog ar 21 Medi 2020.

Derbyniodd Llywodraeth Cymru 47 allan o 50 o gasgliadau'r Pwyllgor, er bod 22 ohonynt mewn egwyddor yn unig. Derbyniodd un casgliad yn rhannol a gwrthod y ddau arall.

Mae'r canlynol ymhlith y newidiadau sylweddol a wnaed i Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Drafft 2020 sy'n gyson â chasgliadau'r Pwyllgor:

- cysylltiadau cliriach â dogfennau eraill Llywodraeth Cymru, er enghraifft **Cymru Carbon Isel, Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru**, y strategaeth drafnidiaeth ddiwygiedig sy'n cael ei datblygu ar hyn o bryd a'r **Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru;**
- ychwanegu llawer mwy o ddelweddau gan gynnwys mapiau a diagramau cenedlaethol a rhanbarthol, i ddangos materion a pholisïau allweddol;
- darparu mwy o fanylion am sut y bydd yr Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn cael ei fonitro a'i adolygu, gan gynnwys cyhoeddi **fframwaith monitro'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol;**

- cryfhau'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol o ran ymateb i newid yn yr hinsawdd, er enghraifft trwy gynnwys polisi newydd ar reoli risg llifogydd;
- mwy o bwyslais ar gymunedau gwledig; erbyn hyn, mae polisïau ar wahân ar gyfer cefnogi cymunedau gwledig, a chefnogi'r economi wledig;
- newid i bedwar rhanbarth ('y Gogledd', 'y Canolbarth', 'y De-orllewin' a'r 'De-ddwyrain') yn hytrach na'r tri rhanbarth a gynigiwyd yn wreiddiol ('y Gogledd', 'y Canolbarth a'r De-orllewin', a'r 'De-ddwyrain) ; a
- mwy o bwyslais ar bolisi sy'n seiliedig ar feini prawf at ddibenion datblygiadau ynni adnewyddadwy, ochr yn ochr â pholisi ar sail gofodol.

## 2.2. Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

Bu Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau'n **craffu ar Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft 2019** ym mis Tachwedd 2019, a gwnaethant **ysgrifennu at y Gweinidog**. Eto, mae ymateb Llywodraeth Cymru wedi'i gynnwys yn yr **adroddiad ymgynghori** a osodwyd gan y Gweinidog ar 21 Medi 2020.

Roedd y Pwyllgor yn pryderu am yr hyn a alwodd yn "ddiffyg uchelgais" y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft 2019. Gwrthododd Llywodraeth Cymru yr asesiad hwn yn gryf gan ddweud bod Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft 2019 yn cynnwys polisïau er mwyn cyflawni gwelliannau radical i'r modd y mae lleoedd yn edrych ac yn gweithredu.

Derbyniodd Llywodraeth Cymru bryderon y Pwyllgor o ran y diffyg cynnydd ar y lefel ranbarthol, gan ddweud bod **Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)** yn mandadu paratoi Cynlluniau Datblygu Strategol. At hynny, cytunodd Llywodraeth Cymru â sylwadau'r Pwyllgor ar gryfhau cysylltiadau trafnidiaeth yng Nghymru, a rhwng Cymru a mannau eraill. Mae Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft 2020 yn cynnwys polisïau newydd ar gysylltedd rhyngwladol, cenedlaethol a rhanbarthol.

Cytunodd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau â'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig y byddai pedwar rhanbarth yn well na thri. Fel y nodwyd uchod, cytunodd Llywodraeth Cymru â hyn hefyd.

# 3. Cyflwyno Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft 2020

Gosododd y Gweinidog y **Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft, yr adroddiad ymgynghori** a dogfennau eraill cysylltiedig gerbron y Senedd ar 21 Medi 2020.

Mae hyn yn cynnwys **rhestr o'r newidiadau** sy'n amlinellu sut mae'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft wedi newid o ganlyniad i ymgynghoriad 2019 a gwaith craffu gan y Pwyllgor. Mae'r ddogfen hon wedi'i gosod mewn tair colofn ac yn dangos y canlynol:

- fersiwn wedi'i ddiweddaru (2020) o'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft;
- y fersiwn blaenorol (2019) o'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft; a
- fersiwn cyfunol gyda newidiadau wedi'u tracio.

Yn ei datganiad, dywedodd y Gweinidog y byddai'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn "sicrhau datgarboneiddio, ecosystemau cydnerth a chynhwysol, a thwf economaidd teg." ac fe fydd yn dwyn yr enw 'Cymru'r Dyfodol – y Cynllun Cenedlaethol 2040'.

Dyma'r gyfres lawn o ddogfennau a osodwyd gerbron y Senedd:

- **Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft;**
- **Adroddiad ymgynghori: Crynodeb;**
- **Adroddiad yr Ymgynghoriad;**
- **Rhestr o'r Newidiadau;**
- **Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd;**
- **Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig: Crynodeb Annhechnegol; a**
- **Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig.**

Yn ogystal â'r dogfennau a osodwyd gerbron y Senedd, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi dogfennau pellach ar ei gwefan:

- **'Drafft gweithio' y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol** – dyma'r fersiwn wedi'i diweddaru (2020) o'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft, gan gynnwys mapiau a delweddau, wedi'i gosod fel y gallai'r fersiwn derfynol edrych. Dywed Llywodraeth Cymru iddi fod yn barod i gynorthwyo â gwaith craffu'r Senedd.

- **Fframwaith monitro** – yn nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru yn monitro ac yn adolygu'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Ni chyhoeddwyd fframwaith monitro arfaethedig ochr yn ochr â Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft 2019.

At hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi **papur esboniadol ar ddatblygiad y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn y dyfodol** gan nodi'r ffactorau allweddol a fydd yn llywio'r adolygiad o'r Fframwaith, gan gynnwys y modd y bydd strategaethau a blaenoriaethau diweddaraf Llywodraeth Cymru yn dylanwadu arno.

Mae nifer o **bapurau esboniadol a chefndirol** eraill yn cyd-fynd â hwn ar wefan Llywodraeth Cymru.

## 3.1. Strwythur Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft 2020

Mae Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft 2020 yn cadw'r un strwythur cyffredinol â drafft 2019. Mae iddo bum pennod:

- **Pennod 1 yw'r cyflwyniad**. Mae'n amlinellu diben y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ac yn disgrifio sut mae'n cyd-fynd â pholisi ehangach Llywodraeth Cymru;
- Mae **Pennod 2, 'Cymru: Trosolwg'** yn amlinellu'r heriau a'r cyfleoedd allweddol sy'n wynebu Cymru dros yr 20 mlynedd nesaf, gyda chefnogaeth mapiau cyd-destunol a ffynonellau gweledol eraill. Y materion sy'n cael eu trafod yw newid yn yr hinsawdd, adferiad ar ôl Covid-19, economi carbon isel, ynni adnewyddadwy, adnoddau naturiol, dŵr ac arfordiroedd, cymdeithas sy'n newid, tai, ffyniant, teithio a'r pedwar rhanbarth. Mae'r mapiau a'r delweddau cyd-destunol yn rhai newydd yn fersiwn 2020.
- Mae **Pennod 3, 'gosod a chyflawni ein huchelgeisiau'** yn rhestru 'canlyniadau Cymru'r Dyfodol', sef uchelgeisiau cyffredinol Llywodraeth Cymru ar gyfer sut le yr hoffai i Gymru fod ymhen 20 mlynedd, ac mae'n amlinellu'r modd y caiff y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ei adolygu. Mae'r wybodaeth ar sut y bydd yr Fframwaith yn cael ei adolygu yn newydd yn fersiwn 2020.
- Mae **Pennod 4, 'dewisiadau strategol a gofodol: strategaeth ofodol Cymru'r Dyfodol**' yn amlinellu strategaeth ofodol sy'n cynnwys fframwaith polisi ar gyfer materion Cymru gyfan sydd o bwys cenedlaethol, a 'diagram strategol' (h.y. map lefel uchel).
- Mae **Pennod 5, 'y Rhanbarthau'**, yn pennu strategaeth ar gyfer materion o bwys cenedlaethol yn y pedwar rhanbarth – y Gogledd, y Canolbarth, y De-

orllewin a'r De-ddwyrain. Roedd fersiwn 2019 yn cynnwys tri rhanbarth: y Gogledd, y Canolbarth a'r De-orllewin, a'r De-ddwyrain.

Mae Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft 2020 yn cynnwys 36 polisi (tri yn fwy na fersiwn 2019), y mae'n eu hamlinellu ym mhenodau 4 a 5. Mae grid ar ddiwedd pennod 5 sy'n dangos y berthynas rhwng y polisïau a'r canlyniadau y maent yn ceisio eu cyflawni.

Disgrifir y canlyniadau a'r polisïau mewn mwy o fanylder isod.

## 3.2. Pennod 3 - Gosod a chyflawni ein huchelgeisiau

Mae Pennod 3 yn nodi 11 Canlyniad Cymru'r Dyfodol. Er bod y testun ategol wedi'i ddiwygio, mae'r canlyniadau'n aros yr un fath â'r rheini yn fersiwn 2019, gydag un eithriad: mae gwytnwch yn yr hinsawdd wedi'i ychwanegu at y canlyniad terfynol.

Mae canlyniadau Cymru'r Dyfodol yn "Gymru lle mae pobl yn byw:

1. ac yn gweithio mewn lleoedd cysylltiedig, cynhwysol ac iach;
2. mewn lleoedd gwledig bywiog lle y gallant gael cartrefi, gwaith a gwasanaethau;
3. mewn rhanbarthau nodedig sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ac anghydraddoldebau economaidd gymdeithasol drwy dwf cynaliadwy;
4. mewn lleoedd lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu;
5. ac yn gweithio mewn trefi a dinasoedd sy'n ganolbwynt ac yn sbardun i dwf cynaliadwy;
6. mewn lleoedd lle y caiff ffyniant, arloesedd a diwylliant eu hyrwyddo;
7. mewn lleoedd lle mae teithio yn gynaliadwy;
8. mewn lleoedd â seilwaith digidol o'r radd flaenaf;
9. mewn lleoedd sy'n rheoli eu hadnoddau naturiol yn gynaliadwy ac yn lleihau llygredd;
10. mewn lleoedd ag ecosystemau bioamrywiol, gwydn a chysylltiedig; ac
11. mewn lleoedd sydd wedi'u datgarboneiddio ac yn gallu gwrthsefyll yr hinsawdd".

Mae Pennod 3 hefyd yn disgrifio sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu paratoi a chyhoeddi adolygiad o'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol bob pum mlynedd. Bydd yr adolygiad yn amlinellu cynnydd wrth gyflawni canlyniadau Cymru'r Dyfodol, yn seiliedig ar bedair ffynhonnell allweddol:

- **Dangosyddion cenedlaethol** – nod **46 dangosydd llesiant cenedlaethol Llywodraeth Cymru** yw mesur cynnydd yn erbyn y nodau llesiant a sefydlwyd gan *Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*.
- **Dangosyddion penodol sy'n gysylltiedig â pholisïau'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol** (gweler isod).
- **Arfarniad o Gynaliadwyedd Integredig ar gyfer y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol** (gweler isod).
- **"Tystiolaeth gyd-destunol a ffactorau sy'n dylanwadu"** – mae hyn yn cynnwys y data, yr ystadegau a'r ymchwil diweddaraf, a pholisïau a chyhoeddiadau Llywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn nodi y bydd hefyd yn gwahodd pobl i gyflwyno tystiolaeth i'w hystyried.

Mae mwy o wybodaeth ar sut y bydd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn cael ei fonitro a'i adolygu yn y **ddogfen fframwaith monitro.**


## 3.3. Pennod 4 – Strategaeth Ofodol (Polisïau 1 – 18)

Caiff y strategaeth ofodol ei disgrifio fel bod yn fframwaith arweiniol ar gyfer y meysydd hynny lle bydd newid ar raddfa fawr, a datblygiadau o bwys cenedlaethol, yn ffocws dros yr 20 mlynedd nesaf. Mae'r polisïau yn y bennod hon o Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft 2020 yn nodi canolfannau cenedlaethol a rhanbarthol allweddol sy'n darparu:

> ...sail i fuddsoddi mewn seilwaith yn yr hirdymor [a nodi] blaenoriaethau ar gyfer y system gynllunio ac yn fframwaith ar gyfer rheoli adnoddau naturiol.

Mae'r Strategaeth Ofodol hefyd yn cynnwys polisïau ar gyfer materion o bwysigrwydd cenedlaethol, gan gynnwys ynni adnewyddadwy, tai fforddiadwy, cyfathrebu symudol, llifogydd a chysylltedd cenedlaethol a rhyngwladol. Caiff y polisïau ac os / sut y maen nhw wedi newid o Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft 2019 eu crynhoi isod.

### *Ffigur 1 - Diagram strategol Cymru'r Dyfodol*




Ffynhonnell: [Drafft gweithio'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol](#) (tudalen 6)

### Polisi 1 – ble bydd Cymru'n tyfu

Ychwanegwyd y polisi hwn at Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft 2020 ac mae'n ehangu ar y cyflwyniad i bennod 4, sydd wedi'i gynnwys yn Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft 2019. Mae Llywodraeth Cymru yn ei ddisgrifio fel rhywbeth sy'n llywio'r broses o gyflawni canlyniadau'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Mae gweddill Pennod 4 (polisïau 2 – 18) yn nodi polisïau cenedlaethol sy'n "hanfodol i gyflawni'r strategaeth ofodol yn llwyddiannus".

Mae'n nodi tair o Ardaloedd Twf Cenedlaethol – Caerdydd, Casnewydd a'r Cymoedd, Bae Abertawe a Llanelli, a Wrecsam a Glannau Dyfrdwy – lle bydd yna dwf o ran cyfleoedd cyflogaeth a thai, a buddsoddiad mewn seilwaith.

Mae Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft 2020 hefyd yn nodi nifer o Ardaloedd Twf Rhanbarthol y dylent, trwy bolisïau penodol mewn Cynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol:

> … gadw a gwella'r sail gwasanaethau masnachol a chyhoeddus sy'n eu gwneud yn ganolbwyntiau yn eu hardaloedd.

Dyma'r Ardaloedd Twf Rhanbarthol:

### Y De-orllewin

- Caerfyrddin a
- Trefi porthladd Sir Benfro, gan gynnwys:
  - Hwlffordd;
  - Aberdaugleddau;
  - Penfro;
  - Doc Penfro.

### Y Canolbarth

- Dyffryn Teifi, gan gynnwys:
  - Aberteifi
  - Castell Newydd Emlyn;
  - Llandysul; a
  - Llanbedr Pont Steffan;
- Aberhonddu a'r Gororau;

- Calon Cymru, gan gynnwys:
    - Llandrindod; a
    - Llanfair ym Muallt;
- Bro Hafren, gan gynnwys:
    - Y Trallwng; a
    - Drenewydd
- Aberystwyth

**Y Gogledd**

- Caergybi;
- Caernarfon a Bangor;
- Llandudno a Bae Colwyn; a
- Rhyl a Phrestatyn.

### Polisi 2 – Llywio Twf ac Adfywio Trefol – Creu Lleoedd Strategol

Mae'r polisi hwn yn disodli polisi 1 yn Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft 2019.

Dylai tyfu ac adfywio trefi a dinasoedd wneud cyfraniad cadarnhaol at greu lleoedd cynaliadwy sy'n cefnogi bywydau egnïol ac iach, gyda chymdogaethau trefol cywasgedig a cherddedadwy, sydd wedi'u trefnu o amgylch canolfannau defnydd cymysg a thrafnidiaeth gyhoeddus ac wedi'u hintegreiddio â seilwaith gwyrdd.

Mae'r polisi'n nodi nifer o egwyddorion creu lleoedd strategol ac yn nodi y dylai awdurdodau cynllunio ddefnyddio cynlluniau datblygu i sefydlu gweledigaeth ar gyfer pob tref a dinas, wedi'i chefnogi gan fframwaith gofodol.

### Polisi 3 – Cefnogi Twf ac Adfywio Trefol – Arweinyddiaeth y Sector Cyhoeddus

Mae'r polisi hwn wedi'i ddiwygio o'r fersiwn blaenorol o bolisi 3 oedd wedi'i gynnwys yn Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft 2019.

Bydd Llywodraeth Cymru yn cydgasglu tir, yn buddsoddi mewn seilwaith ac yn paratoi safleoedd i'w datblygu. Bydd yn gweithio gydag awdurdodau lleol a chyrff eraill yn y sector cyhoeddus i ddatgloi potensial eu tir a'u cefnogi i chwarae rôl ddatblygu gynyddol

### Polisi 4 – Cefnogi Cymunedau Gwledig

Mae'r polisi hwn wedi'i ddiwygio o'r fersiwn blaenorol o bolisi 4 oedd wedi'i gynnwys yn Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft 2019.

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi cymunedau gwledig cynaliadwy a bywiog.

Er bod Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft 2019 wedi nodi y **dylai** Cynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol gynllunio'n gadarnhaol i ddiwallu anghenion cymunedau gwledig, mae Fframwaith drafft 2020 yn nodi bod yn **rhaid** i'r cynlluniau hynny nodi eu cymunedau gwledig, asesu eu hanghenion a gosod polisïau sy'n eu cefnogi.

### Polisi 5 – Cefnogi'r economi wledig

Mae hwn yn bolisi newydd.

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi twf economaidd cynaliadwy, priodol a chymesur mewn trefi gwledig.

Mae hefyd yn gefnogol iawn i ddatblygu sectorau a busnesau technoleg arloesol ac sy'n dod i'r amlwg, er mwyn helpu ardaloedd gwledig, gan greu swyddi cyflog uwch.

### Polisi 6 – Rhoi Canol Trefi yn Gyntaf

Mae'r polisi hwn yn fersiwn diweddaredig o bolisi 2 yn Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft 2019.

Rhaid lleoli cyfleusterau masnachol, manwerthu, addysg, iechyd, hamdden a gwasanaethau cyhoeddus newydd sylweddol yng nghanol trefi a dinasoedd. Dylai fod ganddynt gysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus da.

Gall Llywodraeth Cymru ymyrryd yn y broses o wneud cais cynllunio lle nad yw dull rhoi canol trefi yn gyntaf yn cael ei ddilyn.

### Polisi 7 – Darparu Cartrefi Fforddiadwy

Er bod geiriad y polisi hwn yr un peth â pholisi 5 yn Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft 2019, ac eithrio mân newidiadau, mae'r sylfaen dystiolaeth a ddefnyddir i amcangyfrif yr angen am dai wedi'i diweddaru. At hynny, mae'n cynnwys amcangyfrifon o'r angen am dai ar gyfer y pedwar rhanbarth (yn hytrach na'r tri rhanbarth a ddefnyddiwyd yn Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft 2019).

Bydd Llywodraeth Cymru yn cynyddu nifer y cartrefi fforddiadwy a gyflenwir drwy sicrhau y caiff cyllid ar gyfer y cartrefi hyn ei ddyrannu a'i ddefnyddio'n effeithiol. Trwy gyfrwng Fframweithiau Datblygu Cenedlaethol a Chynlluniau Datblygu Lleol, fe ddylai awdurdodau cynllunio:

> … ddatblygu fframweithiau polisi cryf sy'n seiliedig ar dystiolaeth er mwyn cyflenwi tai fforddiadwy, gan gynnwys gosod targedau ar gyfer cynlluniau datblygu yn seiliedig ar amcangyfrifon rhanbarthol o'r angen am dai ac asesiadau lleol. Mewn ymateb i anghenion lleol a rhanbarthol, dylai awdurdodau cynllunio nodi safleoedd ar gyfer datblygiadau a arweinir gan dai fforddiadwy ac ystyried pob cyfle i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy.

Mae Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft 2020 yn defnyddio cyhoeddiad Llywodraeth Cymru, amcangyfrifon **o'r angen am dai (sail-2019),** sy'n cynnwys nifer o wahanol senarios demograffig. Mae'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft 2020 yn defnyddio'r amcangyfrif canolog sy'n awgrymu'r canlynol:

- bod angen 110,000 o gartrefi ychwanegol ledled Cymru erbyn 2039;
- yn ystod y pum mlynedd cychwynnol (2019/20 i 2023/24) amcangyfrifir y bydd angen 7,400 o gartrefi ychwanegol ar gyfartaledd bob blwyddyn, gydag agos i ddau draean o'r tai sydd eu hangen yn y De-ddwyrain, ychydig dros un rhan o bump yn y De-orllewin a'r rhan fwyaf o weddill y tai ychwanegol sydd eu hangen yn y Gogledd, a nifer cymharol fach o dai sydd eu hangen yn y Canolbarth; a
- dylai darparu tai fforddiadwy fod yn ffocws allweddol ar gyfer cyflenwi tai. Dros y pum mlynedd nesaf (2019/20 – 2023/24), o dan yr amcangyfrif canolog, amcangyfrifir bod y tai ychwanegol bob blwyddyn ar gyfartaledd yn cael eu rhannu'n gyfartal rhwng tai fforddiadwy (tai cymdeithasol neu dai rhent canolradd) a'r farchnad dai.

Mae'n bwysig nodi bod y cyhoeddiad amcangyfrifon o ran yr angen am dai yn nodi **na ddylid defnyddio'r ffigurau hyn fel targedau tai**, yn hytrach "cânt eu defnyddio i lywio datblygu polisi tai".

Dadansoddir y ffigurau tai yn ôl y tri rhanbarth yn ddiweddarach yn Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Drafft 2020, ac fe'u crynhoir yn nhabl 1. Yn ôl Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Drafft 2020, dylai'r amcangyfrifon hyn:

> … lywio'r gofynion tai a nodir mewn Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol… disgwylir i'r gofynion tai fod yn wahanol i'r amcangyfrifon o'r angen am dai.

***Tabl 1: Ffigurau tai rhanbarthol Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft 2020***

| Rhanbarth Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft 2020 | Cartrefi ychwanegol sydd eu hangen erbyn 2039 | Canran y cartrefi ychwanegol yn y pum mlynedd gyntaf (2019-20 i 2023-24) a ddylai fod yn gartrefi fforddiadwy |
|---|---|---|
| **Y Gogledd** | 16,200 | 53% |
| **Y Canolbarth** | 1,800 | 61% |
| **Y De-orllewin** | 25,600 | 44% |
| **Y De-ddwyrain** | 66,400 | 48% |

Ffynhonnell: **drafft gweithio Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft 2020** (tudalennau 110, 134, 146 a 167), yn seiliedig ar **amcangyfrifon canolog Llywodraeth Cymru o'r angen am dai yng Nghymru yn ôl deiliadaeth (yn seiliedig ar 2019)**

### Polisi 8 – Llifogydd

Mae hwn yn bolisi newydd.

Cefnogir systemau rheoli perygl llifogydd sy'n galluogi ac yn cynnal twf ac adfywio strategol cynaliadwy mewn Ardaloedd Twf Cenedlaethol a Rhanbarthol. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag Awdurdodau Rheoli Perygl Llifogydd a datblygwyr er mwyn cynllunio a buddsoddi mewn seilwaith newydd a gwell, gan hyrwyddo atebion yn seiliedig ar natur fel blaenoriaeth.

### Polisi 9 – Rhwydweithiau Ecolegol Cadarn a Seilwaith Gwyrdd

Mae'r polisi hwn yn fersiwn diweddaredig o bolisi 8 yn Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft 2019.

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid allweddol i nodi meysydd y dylid eu diogelu a'u creu fel rhwydweithiau ecolegol, a nodi cyfleoedd lle y gellid gwneud y mwyaf o'r seilwaith gwyrdd presennol, a seilwaith gwyrdd posibl.

Dylai awdurdodau cynllunio gynnwys yr ardaloedd a/neu'r cyfleoedd hyn o fewn strategaethau a pholisïau eu cynlluniau datblygu.

Mae Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft 2020 hefyd yn datgan fod unrhyw

ardaloedd â blaenoriaeth ar gyfer gweithredu a nodir **mewn Datganiadau Ardal** (a baratowyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru) yn ystyriaeth gynllunio berthnasol, a dylai cynlluniau datblygu amlinellu polisïau priodol i ddiogelu a chysylltu'r ardaloedd hyn. https://naturalresources.wales/about-us/area-statements/?lang=cy

Mae'n rhaid i Fframweithiau Datblygu Cenedlaethol a Chynlluniau Datblygu Lleol gael eu llywio gan Asesiadau Seilwaith Gwyrdd.

### Polisi 10 – Cysylltedd Rhyngwladol

Mae'r polisi hwn yn cyfuno polisïau 20, 25 a 32 yn Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft 2019 mewn un polisi newydd.

Mae'n nodi'r Pyrth Strategol canlynol i hwyluso cysylltedd rhyngwladol:

- Maes Awyr Caerdydd;
- **Porthladd Caergybi;**
- **Dyfrffordd y Ddau Gleddau,** gan gynnwys Porthladdoedd Aberdaugleddau a Doc Penfro; a
- Porthladd Abergwaun.

Dylai Cynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol gefnogi'r Pyrth Strategol hyn trwy wneud y mwyaf o'r buddiannau y maen nhw'n eu cynnig ar gyfer eu priod ranbarthau, ac ar gyfer Cymru. Dylid rheoli datblygiadau newydd o amgylch y Pyrth Strategol yn ofalus er mwyn sicrhau na chyfyngir ar eu gweithrediad na'i beryglu.

Mae Maes Awyr Caerdydd wedi cyhoeddi **Uwchgynllun 2040 Maes Awyr Caerdydd** gan nodi 'cynlluniau uchelgeisiol ar gyfer twf dros yr 20 mlynedd nesaf i ddod yn borth allweddol i'r Deyrnas Unedig'.

### Polisi 11 – Cysylltedd Cenedlaethol

Mae'r polisi hwn yn disodli ac yn ymgorffori polisi 7 ar gerbydau allyriadau isel iawn yn Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft 2019.

Mae fersiwn newydd y polisi hwn yn ymgorffori'r egwyddor o wneud teithiau hirach yn bosibl mewn cerbyd trydan, mae hefyd yn cynnwys blaenoriaethau ehangach i gefnogi a buddsoddi mewn gwella cysylltedd cenedlaethol.

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda **Thrafnidiaeth Cymru** a phartneriaid eraill, er mwyn:

- trawsnewid y rhwydwaith rheilffyrdd;
- buddsoddi yn natblygiad y rhwydwaith bysiau cenedlaethol, gan gynyddu nifer y teithiau ar fysiau;
- buddsoddi mewn gwelliannau i'r rhwydwaith ffyrdd strategol, gan gynnwys creu rhwydwaith o bwyntiau gwefru cyflym ar gyfer cerbydau trydan; ac
- adfywio'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol i greu rhwydwaith o lwybrau di-draffig sy'n cysylltu dinasoedd, trefi a chefn gwlad.

Rhaid i awdurdodau cynllunio sicrhau, lle y bo'n briodol, fod datblygiad newydd yn cyfrannu at wella a datblygu'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol.

### Polisi 12 – Cysylltedd Rhanbarthol

Mae hwn yn bolisi newydd.

Mae Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft 2020 yn amlinellu mesurau i wella cysylltedd rhanbarthol, fel blaenoriaethu teithio llesol, gwella sut mae gwasanaethau bysiau yn cael eu cynllunio, a datblygu Metros.

Rhaid i awdurdodau cynllunio wneud y mwyaf o'r cyfleoedd sy'n deillio o fuddsoddi mewn trafnidiaeth gyhoeddus, gan gynnwys datblygiadau di-gar o amgylch gorsafoedd metro.

Rhaid i deithio llesol fod yn rhan hanfodol o'r holl ddatblygiadau newydd a dylai'r awdurdodau cynllunio geisio sicrhau bod pwyntiau gwefru cerbydau trydan mewn o leiaf 10% o fannau parcio ceir, mewn datblygiadau dibreswyl newydd.

### Polisi 13 – Cefnogi Cyfathrebu Digidol

Mae hwn yn bolisi newydd.

Mae Llywodraeth Cymru o blaid darparu seilwaith a gwasanaethau cyfathrebu digidol ledled Cymru.

Dylai datblygiadau newydd gynnwys darparu seilwaith band eang Gigabit o'r cychwyn.

### Polisi 14 – Cynllunio mewn Parthau Gweithredu Telathrebu Symudol

Mae'r polisi hwn wedi'i ddiwygio o bolisi 6 yn Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft 2019.

Bydd Llywodraeth Cymru yn nodi Parthau Gweithredu Telathrebu Symudol sy'n dangos lleoliadau lle nad oes fawr ddim signal telathrebu symudol, os o gwbl.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei **Chynllun Gweithredu Ffonau Symudol** ym mis Hydref 2017. Nodir yn y cynllun sut bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r ysgogiadau datganoledig sydd ar gael iddi – fel cynllunio ac ardrethi busnes - yn ogystal â gweithio gyda'r diwydiant ffonau symudol ac Ofcom (y rheolydd cyfathrebu) i wella darpariaeth symudol.

Yn ôl Polisi 6 o Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft 2019, mae yna rhagdybiaeth o blaid seilwaith telathrebu symudol newydd, ar yr amod nad oes unrhyw effeithiau niweidiol sylweddol ar y dirwedd. Mae hyn wedi'i ddileu o Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Drafft 2020.

### Polisi 15 – Fforest Genedlaethol

Mae hwn yr un peth â pholisi 9 yn Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft 2019.

Bydd Llywodraeth Cymru yn nodi safleoedd a mecanweithiau i ddatblygu fforest genedlaethol a bydd yn cefnogi camau i ddiogelu lleoliadau arfaethedig.

Mae **strategaeth Coetiroedd i Gymru** Llywodraeth Cymru yn gosod targed i gynyddu gorchudd coetir gan o leiaf 2,000 hectar y flwyddyn, o 2020 ymlaen.

### Polisi 16 – Rhwydweithiau Gwresogi

Mae'r polisi hwn yn cyfuno polisïau 14 ac 15 yn Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft 2019.

Mae **Rhwydweithiau Gwresogi Rhanbarthol** yn ddull o gyflenwi gwres a dŵr poeth i sawl adeilad, o ffynhonnell wres ganolog. Nodir yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft y gallant fod y ffordd fwyaf effeithiol o ddarparu gwres carbon isel, yn enwedig mewn ardaloedd trefol.

O fewn Ardaloedd â Blaenoriaeth ar gyfer Rhwydweithiau Gwresogi Rhanbarthol, dylai awdurdodau cynllunio nodi cyfleoedd a chynllunio'n gadarnhaol ar gyfer eu rhoi ar waith.

Mae Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft 2020 yn nodi y dylai cynigion ar gyfer datblygiadau defnydd cymysg mawr sy'n cynnwys 100 o anheddau neu fwy neu 10,000 milltir sgwâr neu fwy o arwynebedd llawr masnachol o leiaf ystyried y potensial ar gyfer rhwydwaith gwresogi, fodd bynnag, mae potensial hefyd am rwydweithiau gwresogi islaw'r trothwy hwn.

## 3.3.a Polisïau ynni adnewyddadwy (polisïau 17 a 18)

Yn y cyhoeddiad **Cymru carbon isel,** mae Llywodraeth Cymru yn nodi ystod o bolisïau a chynigion sy'n ymwneud ag ynni adnewyddadwy, sy'n cynnwys targedau ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy fel a ganlyn:

- cynhyrchu 70% o ddefnydd trydan Cymru o ynni adnewyddadwy erbyn 2030;
- 1 GW o gapasiti ynni adnewyddadwy yng Nghymru i fod dan berchnogaeth leol erbyn 2030; a
- phrosiectau ynni adnewyddadwy i gael o leiaf elfen o berchnogaeth leol o 2020.

Mae Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft 2020 yn nodi dau bolisi mewn perthynas ag ynni adnewyddadwy a charbon isel. Mae polisïau 17 a 18 yn cynnwys polisïau gofodol strategol sy'n seiliedig ar feini prawf, y dylid eu hystyried gyda'i gilydd wrth benderfynu ar geisiadau.

Dylai cynigion sicrhau nad oes unrhyw effaith niweidiol annerbyniol sylweddol ar yr amgylchedd naturiol cyfagos a chymunedau lleol.

Nododd **asesiad o botensial ynni solar a gwynt ar y tir yng Nghymru** – a baratowyd ar ran Llywodraeth Cymru – yr Ardaloedd â Blaenoriaeth (a ddangosir yn ffigur 2) fel y lleoliadau mwyaf priodol i ddarparu ar gyfer newid tirwedd.

**Polisi 17 – Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel a Seilwaith Cysylltiedig**

Mae'r polisi hwn yn ymgorffori polisi 13 yn Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft 2019.

Mae Llywodraeth Cymru yn gryf o blaid egwyddor datblygu ynni adnewyddadwy a charbon isel o bob technoleg ac ar bob graddfa er mwyn diwallu ein hanghenion ynni yn y dyfodol.

Mewn Ardaloedd a Aseswyd Ymlaen Llaw ar gyfer Ynni Gwynt, mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi modelu'r effaith debygol ar y dirwedd ac wedi "nodi y gellir lleoli datblygiad yno mewn modd derbyniol". Mae rhagdybiaeth o blaid datblygiadau ynni gwynt mawr (gan gynnwys adbweru) yn yr ardaloedd hyn, yn amodol ar y meini prawf ym mholisi 18.

Fodd bynnag, ni chaniateir datblygiadau ynni gwynt nac ynni'r haul mawr mewn Parciau Cenedlaethol nac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a dylai pob cynnig ddangos na chânt effaith andwyol annerbyniol ar yr amgylchedd.

### Polisi 18 – Datblygiadau Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel o Arwyddocâd Cenedlaethol


Mae'r polisi hwn yn cyfuno polisïau 10,11 a 12 yn Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft 2019.

Caniateir cynigion ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy a charbon isel (gan gynnwys adbweru) sy'n gymwys fel **Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol** yn amodol ar bolisi 17 a'r meini prawf a amlinellir o dan bolisi 18 yn Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft 2020.

Gweinidogion Cymru sy'n penderfynu ynghylch Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol, gan gynnwys datblygiadau ynni ar raddfa eang. Dyma enghreifftiau:

- pob achos o gynhyrchu ynni gan ddefnyddio gwynt ar y tir, sy'n 10 megawat neu'n uwch; a
- safleoedd cynhyrchu ynni eraill sydd â phŵer cynhyrchu rhwng 10 a 350 megawat.

## *Ffigur 2 - Rhwydweithiau Ynni Gwynt a Gwres*




Ffynhonnell: Drafft gweithio'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (tudalen 94)

## 3.4. Pennod 5 - Y Rhanbarthau (Polisïau 19 - 36)

Yn ôl Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft 2020:

> Bydd gwaith cynllunio rhanbarthol yn chwarae rôl fwyfwy pwysig yn y dyfodol ac mae wrth wraidd ein gweledigaeth ar gyfer system gynllunio tair haen.

Mae'r polisïau rhanbarthol yn Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft 2020 yn canolbwyntio ar bedwar ardal – y Gogledd, y Canolbarth, y De-orllewin a'r De-ddwyrain. Mae'r dull hwn wedi'i ddiwygio o Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft 2019 oedd, yn hytrach, yn defnyddio model tri rhanbarth (y Gogledd, y Canolbarth a'r De-orllewin a'r De-dwyrain).

### Polisi 19 – Polisïau Strategol ar gyfer Cynllunio Rhanbarthol

Mae'r hwn yn fersiwn diweddaredig o bolisi 16 yn Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft 2019.


Mae'n rhaid mabwysiadu Cynlluniau Datblygu Strategol ar gyfer pob rhanbarth ac fe ddylen nhw sefydlu'r canlynol:

- strategaeth ofodol;
- hierarchaeth aneddiadau;
- y ddarpariaeth a'r gofyniad tai;
- anghenion sipsiwn a theithwyr;
- darparu cyflogaeth;
- ardaloedd gofodol tai strategol, twf cyflogaeth ac ynni adnewyddadwy;
- nodi lleiniau glas, coridorau gwyrdd a thirweddau sydd o bwys cenedlaethol lle y bo angen;
- lleoliad gwasanaethau allweddol, trafnidiaeth a seilwaith cysylltedd;
- fframwaith ar gyfer rheoli adnoddau naturiol ac asedau diwylliannol yn gynaliadwy;
- rhwydweithiau ecolegol a chyfleoedd i ddiogelu neu wella cysylltedd y rhwydweithiau hyn a darparu seilwaith gwyrdd; a
- fframwaith cydgysylltiedig ar gyfer echdynnu mwynau a'r economi gylchol, gan gynnwys trin a gwaredu gwastraff.

## 3.4.a Gogledd (Polisïau 20 – 24)

Mae rhanbarth y Gogledd yn cynnwys saith awdurdod cynllunio – Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Ynys Môn, Parc Cenedlaethol Eryri a Wrecsam.

***Ffigur 3 – Diagram strategol rhanbarthol ar gyfer y Gogledd***




Ffynhonnell: **Drafft gweithio'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol** (tudalen 109)

### Polisi 20 – Ardal Dwf Genedlaethol – Wrecsam a Glannau Dyfrdwy

Mae hwn yr un peth â pholisi 17 yn Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft 2019.

Wrecsam a Glannau Dyfrdwy fydd prif ffocws twf a buddsoddi yn rhanbarth y Gogledd.

Rhaid i Gynlluniau Datblygu Strategol a Lleol ledled y rhanbarth gydnabod yr Ardal Dwf Genedlaethol fel y ffocws ar gyfer twf strategol yr economi a thai; gwasanaethau a chyfleusterau hanfodol; gweithgynhyrchu uwch a seilwaith trafnidiaeth.

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda chyrff rhanbarthol ac awdurdodau lleol yn y rhanbarth a rhanbarthau cyfagos Lloegr i hyrwyddo a gwella rôl strategol

Wrecsam a Glannau Dyfrdwy a sicrhau bod penderfyniadau buddsoddi allweddol yn cefnogi lleoedd yn yr Ardal Dwf Genedlaethol a'r rhanbarth ehangach.

### Polisi 21 – Ardal Dwf Ranbarthol – Aneddiadau Arfordirol Gogledd Cymru

Mae'r polisi hwn yn fersiwn wedi'i diweddaru o bolisi 18 yn Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft 2019, er bod drafft 2020 yn mynd ymhellach wrth nodi trefi penodol.

Bydd twf ac adfywio cynaliadwy yn cael ei gefnogi mewn trefi rhanbarthol pwysig ar hyd arfordir y gogledd. Bydd Caergybi, Caernarfon, Bangor, Llandudno, Bae Colwyn, y Rhyl a Phrestatyn yn ffocws "twf a reolir".

Dylai Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol gydnabod y rolau y mae'r lleoedd hyn yn eu chwarae fel ffocws ar gyfer tai, cyflogaeth, twristiaeth, trafnidiaeth gyhoeddus a gwasanaethau allweddol yn eu hardaloedd ehangach.

### Polisi 22 – Lleiniau Glas yn y Gogledd

Mae'r hwn yn fersiwn diweddaredig o bolisi 19 yn Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft 2019.

Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynllun Datblygu Strategol nodi llain las o amgylch Wrecsam a Glannau Dyfrdwy er mwyn rheoli ffurf a thwf trefol. Rhaid iddo hefyd ystyried y berthynas â'r llain las yng Ngorllewin Swydd Gaer a Chaer.

### Polisi 23 – Metro'r Gogledd

Mae'r hwn yn fersiwn diweddaredig o bolisi 21 yn Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft 2019.

Mae Llywodraeth Cymru o blaid datblygu **Metro'r Gogledd** a bydd yn gweithio gyda Trafnidiaeth Cymru, awdurdodau lleol a phartneriaid eraill er mwyn sicrhau y caiff ei gyflawni. Bydd hefyd yn gweithio gydag awdurdodau lleol a rhanbarthol yn y Gogledd a Gogledd-orllewin Lloegr er mwyn sicrhau bod y Metro a buddsoddiadau ehangach mewn trafnidiaeth yn atgyfnerthu cysylltiadau trafnidiaeth ar draws y ffin â chysylltiadau trafnidiaeth gwell rhwng y Gogledd, Caer, Lerpwl a Manceinion.

Rhaid i Gynlluniau Datblygu Strategol a Lleol gefnogi Metro'r Gogledd.

### Polisi 24 – Gogledd-orllewin Cymru ac Ynni

Mae'r hwn yn fersiwn diweddaredig o bolisi 22 yn Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft 2019.

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi Gogledd orllewin Cymru fel lleoliad ar gyfer datblygiadau ynni newydd a buddsoddiad. Dylai datblygiadau ynni newydd yn y rhanbarth gefnogi cymunedau lleol a rhanbarthol; darparu swyddi a sicrhau buddsoddiad mewn hyfforddiant a sgiliau; a gweithio gyda phrifysgolion a busnesau ledled y rhanbarth a Gogledd-orllewin Lloegr i gydgysylltu buddsoddiad newydd a manteisio i'r eithaf arno.

Wrth benderfynu ar unrhyw geisiadau am orsafoedd ynni niwclear yn y rhanbarth hwn, dylid ystyried yr angen am ragor o gapasiti cynhyrchu ynni carbon isel, eu cyfraniad at gymysgedd a sicrwydd ynni'r DU, y manteision economaidd y byddent yn eu sicrhau i'r rhanbarth a'u heffeithiau ar yr amgylchedd naturiol a hanesyddol.


Mae Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft 2020 hefyd yn nodi y bydd datblygiadau sy'n gysylltiedig â'r **Rhaglen Ynys Ynni Ynys Môn** – sef Wylfa Newydd a Thrawsfynydd – yn cael eu cefnogi mewn egwyddor fel modd i greu buddion economaidd sylweddol i'r ardal, ynghyd â chynhyrchu ynni adnewyddadwy, neu ynni carbon isel.

Bydd datblygiadau ar y tir sy'n gysylltiedig â phrosiectau ynni adnewyddadwy ar y môr hefyd yn cael eu cefnogi mewn egwyddor.

## 3.4.b Y Canolbarth (Polisïau 25 – 27)

Mae rhanbarth y Canolbarth yn cynnwys Ceredigion, Powys a'r rhan fwyaf o awdurdodau cynllunio Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

***Ffigur 4 – Diagram strategol rhanbarthol ar gyfer y Canolbarth***




Ffynhonnell: **Drafft gweithio'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol** (tudalen 129)

### Polisi 25 – Ardaloedd Twf Rhanbarthol – y Canolbarth

Mae hwn yn bolisi newydd, o ganlyniad i'r newid i'r model pedwar rhanbarth (yn hytrach na'r model tri rhanbarth a ddefnyddiwyd yn Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft 2019).

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi twf a datblygu cynaliadwy mewn cyfres o drefi rhyng-gysylltiedig ledled y rhanbarth.  Dylai datblygiadau yn yr Ardaloedd Twf Rhanbarthol hyn ddiwallu anghenion tai a chyflogaeth ac anghenion cymdeithasol rhanbarthol y Canolbarth. Caiff yr Ardaloedd Twf Rhanbarthol ar gyfer y rhanbarth eu rhestru o dan bolisi 1.

### Polisi 26 – Rheoli Twf – Tyfu Economi'r Canolbarth

Mae hwn yn bolisi newydd, o ganlyniad i'r newid i'r model pedwar rhanbarth (yn hytrach na'r model tri rhanbarth a ddefnyddiwyd yn Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft 2019).

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi twf a datblygiad cyfleoedd economaidd sy'n bodoli eisoes a rhai newydd ledled y Canolbarth.

Rhaid i Gynlluniau Datblygu Strategol a Lleol ddatblygu polisïau sy'n cefnogi busnesau gwledig traddodiadol amaethyddol a seiliedig ar dir; a darparu fframwaith hyblyg i gefnogi datblygiad technolegau a sectorau newydd, arloesol ac sy'n dod i'r amlwg.

### Polisi 27 – Cefnogi Twf – Symudiad yn y Canolbarth

Mae hwn yn bolisi newydd, o ganlyniad i'r newid i'r model pedwar rhanbarth (yn hytrach na'r model tri rhanbarth a ddefnyddiwyd yn Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft 2019).


Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol a rhanbarthol er mwyn sicrhau bod buddsoddiadau mewn trafnidiaeth yn gwella hygyrchedd ledled y Canolbarth ac yn atgyfnerthu cysylltiadau trafnidiaeth trawsffiniol.

Dylai Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol gefnogi gwell cysylltiadau trafnidiaeth o fewn y rhanbarth ac â rhanbarthau eraill a Lloegr.

## 3.4.c Y De-orllewin (Polisïau 28 – 32)

Mae rhanbarth y De-orllewin yn cynnwys pum awdurdod cynllunio - Sir Gaerfyrd-din, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro, Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ac Abertawe.

***Ffigur 5 - Diagram strategol rhanbarthol ar gyfer y De-orllewin***




Ffynhonnell: **Drafft gweithio'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol** (tudalen 145)

### Polisi 28 – Ardal Dwf Genedlaethol – Bae Abertawe a Llanelli

Mae'r hwn yn fersiwn diweddaredig o bolisi 23 yn Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft 2019.

Bae Abertawe a Llanelli fydd y prif ffocws ar gyfer twf a buddsoddiad yn rhanbarth y De-orllewin. Dylai Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol gydnabod yr Ardal Dwf Genedlaethol fel y ffocws ar gyfer cynnydd tai a thwf economaidd strategol; gwasanaethau a chyfleusterau hanfodol; gweithgynhyrchu uwch; seilwaith trafnidiaeth a seilwaith digidol.

### Polisi 29 – Ardaloedd Twf Rhanbarthol – Caerfyrddin a Threfi Porthladd Sir Benfro

Mae'r hwn yn fersiwn diweddaredig o bolisi 24 yn Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft 2019.

Caerfyrddin a'r pedair 'tref borthladd' (Aberdaugleddau, Hwlffordd, Penfro a Doc Penfro) fydd y ffocws twf a reolir. Dylai Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol gydnabod y rolau y mae'r lleoedd hyn yn eu chwarae fel ffocws ar gyfer tai, cyflogaeth, twristiaeth, trafnidiaeth gyhoeddus a gwasanaethau allweddol.

### Polisi 30 – Rheoli Twf – Lleiniau Glas yn y De-orllewin

Mae hwn yn bolisi newydd, o ganlyniad i'r newid i'r model pedwar rhanbarth (yn hytrach na'r model tri rhanbarth a ddefnyddiwyd yn Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft 2019).

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r defnydd o Gynlluniau Datblygu Strategol i nodi a sefydlu lleiniau glas i reoli ffurf a thwf trefol yn y De-orllewin, yn enwedig o amgylch Bae Abertawe a Llanelli.

### Polisi 31 – Metro'r De-orllewin

Mae'r hwn yn fersiwn diweddaredig o bolisi 26 yn Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft 2019.

Mae Llywodraeth Cymru o blaid datblygu **Metro'r De-orllewin** a bydd yn gweithio gyda Trafnidiaeth Cymru, awdurdodau lleol a phartneriaid eraill i'w gyflawni.

Dylai Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol gefnogi Metro'r De-orllewin.

Dylai awdurdodau cynllunio gynllunio ar gyfer twf ac adfywio er mwyn achub ar y cyfleoedd posibl sy'n deillio o well cysylltedd rhanbarthol, gan gynnwys nodi

cyfleoedd ar gyfer datblygiadau dwysedd uwch, defnydd cymysg a di-gar o amgylch gorsafoedd metro newydd a gwell.

**Polisi 32 – Dyfrffordd y Ddau Gleddau ac Ynni**

Mae'r hwn yn fersiwn diweddaredig o bolisi 25 yn Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft 2019

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi gweithrediadau Dyfrffordd y Ddau Gleddau, ac mae'n cydnabod ei lleoliad ar gyfer datblygiadau, buddsoddiadau a gwaith arloesol ym maes ynni adnewyddadwy a charbon isel newydd posibl.


Wrth benderfynu ar unrhyw geisiadau am gynigion ynni, dylid ystyried y cyfraniad a wnaiff at ddatgarboneiddio cyflenwadau ynni, yr effeithiau ar dirweddau, morweddau, yr amgylchedd naturiol a hanesyddol a'r manteision economaidd.

Cefnogir datblygiadau ar y tir sy'n gysylltiedig â phrosiectau ynni adnewyddadwy ar y môr mewn egwyddor.

## 3.4.d Y De-ddwyrain (Polisïau 33 – 36)

Mae rhanbarth y De-ddwyrain yn cynnwys deg awdurdod cynllunio – Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Caerdydd, Merthyr Tudful, Sir Fynwy, Casnewydd, Rhondda Cynon Taf, Torfaen a Bro Morgannwg.

***Ffigur 6 – Diagram strategol rhanbarthol ar gyfer y De-ddwyrain***




*Ffynhonnell:* **Drafft gweithio'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol** *(tudalen 163)*

### Polisi 33 – Ardal Dwf Genedlaethol – Caerdydd, Casnewydd a'r Cymoedd

Mae'r polisi hwn yn cyfuno polisïau 27, 28 a 29 yn Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft 2019.

Caerdydd, Casnewydd a'r Cymoedd fydd y prif ffocws ar gyfer twf a buddsoddiad yn rhanbarth y De-ddwyrain. Dylai Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol gydnabod yr Ardal Dwf Genedlaethol fel y ffocws ar gyfer cynnydd tai a thwf economaidd strategol; gwasanaethau a chyfleusterau hanfodol; gweithgynhyrchu uwch; seilwaith trafnidiaeth a seilwaith digidol.

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi statws Caerdydd fel dinas gystadleuol yn rhyngwladol a **dinas graidd** ar lwyfan y DU. Bydd Caerdydd yn cadw ac yn ymestyn ei rôl fel y brif ganolfan genedlaethol ar gyfer diwylliant, chwaraeon, hamdden, y cyfryngau, economi'r nos a chyllid.

At hynny, mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi rôl strategol gynyddol ar gyfer Casnewydd fel ffocws twf a buddsoddiad cynaliadwy a hirdymor a buddsoddi cydgysylltiedig yn ardal y Cymoedd er mwyn gwella llesiant, cynyddu ffyniant a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau cymdeithasol.

### Polisi 34 – Rheoli Twf – Lleiniau Glas yn y De-ddwyrain

Mae'r hwn yn fersiwn diweddaredig o bolisi 30 yn Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft 2019.

Mae'n rhaid i'r Cynllun Datblygu Strategol nodi llain las i'r gogledd o Gaerdydd, Casnewydd a rhan ddwyreiniol y rhanbarth er mwyn rheoli ffurf a thwf trefol, ac mae'n rhaid iddo ystyried y gydberthynas rhwng lleiniau glas a'r llain las yng Ngorllewin Lloegr.

### Polisi 35 – Cefnogi Twf – Parc Rhanbarthol y Cymoedd

Mae hwn yr un peth â pholisi 33 yn Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft 2019.

Dylai'r Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol ymgorffori **Parc newydd Rhanbarthol y Cymoedd** yn eu fframweithiau cynllunio. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag eraill i gefnogi'r parc rhanbarthol a chynyddu cyfleoedd ar gyfer datblygiadau newydd.

### Polisi 36 – Metro'r De-ddwyrain

Mae'r hwn yn fersiwn diweddaredig o bolisi 31 yn Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft 2019.

Mae Llywodraeth Cymru o blaid datblygu **Metro'r De-ddwyrain** a bydd yn gweithio gyda Trafnidiaeth Cymru, awdurdodau lleol a phartneriaid eraill i'w gyflawni.

Dylai awdurdodau cynllunio gynllunio ar gyfer twf ac adfywio er mwyn achub ar y cyfleoedd sy'n deillio o well cysylltedd rhanbarthol, gan gynnwys nodi cyfleoedd am ddatblygiadau dwysedd uwch, defnydd cymysg a di-gar o amgylch gorsafoedd metro newydd a gwell.

## 3.5. Arfarniad o Gynaliadwyedd Integredig

Mae Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft 2020 wedi bod yn destun Arfarniad o Gynaliadwyedd Integredig, ac mae'r adroddiad ar ei gyfer **wedi'i gyhoeddi'n llawn** ac fel a **crynodeb annhechnegol**. Nod yr Arfarniad o Gynaliadwyedd Integredig yw bodloni **gofynion Cyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol yr Undeb Ewropeaidd** ac mae'n cynnwys nifer o asesiadau statudol ac anstatudol eraill.

Mae'n broses ailadroddol sy'n asesu'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft sy'n dod i'r amlwg yn erbyn fframwaith o 17 o amcanion cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol. Daeth adroddiad Gwerthusiad Cynaliadwyedd Integredig ar Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft 2020 i'r casgliadau a ganlyn:

- Byddai disgwyl i'r Strategaeth Ofodol arwain at effeithiau cynaliadwyedd cadarnhaol yn bennaf, ond mae risg y bydd lefel y datblygiad a gynigir yn y pedwar rhanbarth yn arwain at gynnydd mewn risg llifogydd, er y gellid lliniaru hyn;
- byddai disgwyl i'r polisïau gael effeithiau niwtral neu gadarnhaol ar amcanion Gwerthusiad Cynaliadwyedd Integredig cymdeithasol ac economaidd sy'n gysylltiedig â gwella addysg, iechyd, yr economi, cyflogaeth, cysylltedd, cydlyniant cymdeithasol a thai;
- nodwyd effeithiau mwy cymysg ar gyfer yr amcanion sy'n ymwneud â diogelu'r amgylchedd naturiol, gan gynnwys ynni ac allyriadau tŷ gwydr, ansawdd aer, perygl o lifogydd, dŵr, tirweddau a threfluniau, treftadaeth ddiwylliannol, bioamrywiaeth a geoamrywiaeth yn ogystal ag adnoddau naturiol, ar gyfer y rhan fwyaf o'r rhain nid yw'n glir a fyddai'r effeithiau cadarnhaol neu negyddol yn gwrthbwyso ei gilydd; a
- nodwyd effeithiau negyddol sylweddol yn y tymor hir ar gyfer polisi 10 gan y byddai'n annog ac yn cefnogi cynnal a chadw Maes Awyr Caerdydd a phyrth

strategol eraill, y byddai disgwyl iddynt barhau i fod yn brif ffynonellau allyriadau nwyon tŷ gwydr o ganlyniad i symudiadau yn yr awyr, a llongau.

Ceir yr argymhellion a ganlyn yn adroddiad y Gwerthusiad Cynaliadwyedd Integredig er mwy gwella perfformiad cynaliadwyedd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol:

- dylai'r Fframwaith wneud y mwyaf o gyfleoedd i gryfhau cysylltedd rhwng ardaloedd gwledig a chymunedau mwy ynysig â gwasanaethau, cyfleusterau ac amwynderau hanfodol;
- dylai fod mwy o ddarpariaeth o isadeiledd gwyrdd i wella'r amgylchedd naturiol, gan gynnwys hwyluso symudiad rhydd bywyd gwyllt, yn ogystal â llwybrau cerdded a beicio deniadol a diogel i bobl;
- Gallai'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol roi ystyriaeth agosach i effaith bosibl datblygu dwys mewn lleoliadau trefol ar ansawdd aer, ac i ba raddau y gellir rheoli hyn trwy ddyluniad a chynllun y datblygiad;
- gellid bod angen datblygu canol trefi a dinasoedd i wella cymeriad trefluniau presennol drwy fesurau dylunio o ansawdd uchel; a
- gallai'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ystyried rhoi mwy o bwyslais ar ddatblygiad carbon niwtral, a darparu mwy o anogaeth a chefnogaeth i hynny.

## 3.6. Asesiad o Reoliadau Cynefinoedd

Mae Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft 2020 hefyd wedi bod yn destun **Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.** Diben Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yw sicrhau nad yw cynllun neu brosiect yn cael effaith sylweddol ar safleoedd dynodedig Ewropeaidd, naill ai ar ei ben ei hun neu mewn cyfuniad â chynlluniau neu brosiectau eraill.

Mae **Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017** yn gweithredu Cyfarwyddeb Cynefinoedd yr Undeb Ewropeaidd a Chyfarwyddeb Adar yr Undeb Ewropeaidd. Mae'r Rheoliadau'n cymhwyso'r broses Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd i safleoedd Natura 2000, sydd wedi eu dynodi o dan y ddwy Gyfarwyddeb, a hefyd i **Safleoedd Ramsar.**

'Sgriniodd' yr adroddiad Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar gyfer Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft 2020, 24 o'r 36 polisi ar gyfer asesiadau manylach (a elwir yn 'asesiad priodol'). Mae hyn o'i gymharu ag adroddiad yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar gyfer sgrinio drafft 2019 mewn 20 o 33 polisi. Caiff y casgliadau eu hamlinellu yn Nhabl 4 yr **Adroddiad Asesiad Rheoliadau**

**Cynefinoedd**. I grynhoi, daeth yr adroddiad i'r casgliad canlynol:

- Mae'n anodd wrth y "cam strategol hwn o'r broses cynllunio datblygu" i fod yn glir sut y gall penderfyniadau polisi strategol effeithio ar safleoedd dynodedig Ewropeaidd, ond mae osgoi materion yn gynnar wedi bod yn elfen allweddol trwy gydol y broses ar gyfer datblygu'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol; a
- Does dim un o'r polisïau yn y Fframwaith drafft yn mynd ati i gyfarwyddo datblygiadau mewn ffordd na ellid osgoi na lliniaru'r effeithiau ar y lefel haen is (Cynllun Datblygu Strategol/Cynlluniau Datblygu Lleol) neu ar lefel prosiect.